**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
9 Chwefror 2026

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 (“Rheoliadau 2026”) yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”) er mwyn moderneiddio ac egluro'r fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yng Nghymru. Mae Rheoliadau 2010 yn gwneud darpariaeth i banel annibynnol adolygu penderfyniadau penodol a wneir gan asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaethau maethu.

Y penderfyniadau yw:

- pan fo asiantaeth fabwysiadu yn penderfynu nad yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, neu nad yw’n addas mwyach i fabwysiadu plentyn yn dilyn adolygiad;
- pan fo asiantaeth fabwysiadu yn gwneud penderfyniad o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005;
- pan fo darparwr gwasanaeth maethu yn penderfynu nad yw person yn addas i weithredu fel rhiant maeth, neu’n penderfynu terfynu cymeradwyaeth bresennol rhiant maeth neu ddiwygio telerau’r gymeradwyaeth honno.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a chan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cânt eu gwneud o dan weithdrefn annilysu y Senedd.

3.2 Rhoddwyd dau o'r pwerau galluogi: adrannau 9 a 12 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 wreiddiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heb weithdrefn benodol. Ar y pryd, roedd pob deddfwriaeth yn destun pleidlais, felly gwnaed Rheoliadau 2010 o dan y weithdrefn gadarnhaol. Yn dilyn trosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a ychwanegwyd gan Ddeddf Cymru 2017), mae'r weithdrefn gymwys bellach yn cael ei phennu gan baragraff 34 o'r Atodlen honno. O dan y ddarpariaeth hon, os oes pŵer cyfatebol i wneud is-ddeddfwriaeth wedi'i roi i Weinidog y Goron mewn perthynas â Lloegr, mae gweithdrefn y Senedd yn efelychu'r weithdrefn a fyddai'n gymwys i arfer y pŵer hwnnw gan Weinidog y Goron. Yn yr achos hwn, mae adran 140(2) o

Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn cadarnhau bod weithdrefn annilysu y Senedd yn gymwys.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") er mwyn sicrhau bod y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yng Nghymru yn parhau i fod yn gyfreithiol gadarn, yn weithredol effeithiol, ac yn deg i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau allweddol ym maes mabwysiadu a maethu.

4.2 Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yw'r broses sy'n caniatáu i ddarpar ofalwr maeth neu ofalwr maeth cymeradwy neu ddarpar fabwysiadydd ofyn am adolygiad o benderfyniad neu 'benderfyniad cymhwysol' sydd wedi cael ei wneud gan wasanaeth maethu neu fabwysiadu. Gallai fod yn benderfyniad i beidio â chymeradwyo darpar ofalwr maeth neu fabwysiadydd, terfynu cymeradwyaeth fel gofalwr maeth, neu newid telerau cymeradwyaeth.

4.3 Amlinellir y broses IRM yn Rheoliadau 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais i adolygu penderfyniad, sefydlu panel; a nodi aelodaeth a swyddogaethau'r panel adolygu, a'r amserlen sydd i'w dilyn. Sefydlwyd yr IRM yn 2010 i gyflawni'r swyddogaeth hon ar ran Gweinidogion Cymru a sicrhau annibyniaeth weithredol.

4.4 Cyflwynodd Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 broses asesu dau gam i gymeradwyo darpar ofalwyr maeth a'r cysyniad o 'adroddiad byr'. Mae hyn yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth maethu baratoi adroddiad os daw gwybodaeth i law yn ystod yr asesiad sy'n ei gwneud hi'n annhebygol y bydd yr ymgeisydd yn cael ei ystyried yn addas i fod yn ofalwr maeth, hyd yn oed os nad yw'r asesiad wedi'i gwblhau. Gelwir hwn yn 'adroddiad byr'.

4.5 Os mai'r argymhelliad yw nad yw'r ymgeisydd yn addas i fod yn rhiant maeth, caiff y darparwr gwasanaeth maethu ddyroddi penderfyniad i'r ymgeisydd sy'n ei hysbysu bod y gwasanaeth maethu yn cynnig peidio â'i gymeradwyo fel gofalwr maeth, ac felly'n cynghori'r ymgeisydd bod hawl ganddo i wneud sylwadau pellach neu wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan y panel annibynnol.

4.6 Mae Rheoliadau 2010 yn rhagflaenu cyflwyno'r adroddiad byr i baneli maethu, ac efallai bydd problemau'n codi os yw ymgeisydd yn gwneud cais drwy'r IRM ar ôl derbyn adroddiad byr. Y rheswm am hyn yw nad yw Rheoliadau 2010 yn cynnwys darpariaeth ar hyn o bryd i alluogi'r panel annibynnol i ofyn y dylai asesiad llawn gael ei gwblhau o hyd yn dilyn adroddiad byr. Felly, ni fydd y panel yn gallu argymell cymeradwyaeth fel rhiant maeth gan na fydd yr asesiad llawn wedi'i gwblhau, ac o ganlyniad ni fydd y panel ond yn gallu argymell nad yw'r ymgeisydd yn addas i fod yn

rhiant maeth. Yn ogystal, ni fydd hawl ymgeisydd i ofyn am adolygiad o benderfyniad cymhwysol y darparwr gwasanaeth maethu yn cael unrhyw effaith ymarferol os yw'r gwasanaeth yn argymell gwrthod cymeradwyaeth yn dilyn adroddiad byr.

4.7 Felly, bydd Rheoliadau 2026 yn galluogi'r panel annibynnol i wneud argymhelliad i baratoi adroddiad llawn os oes angen, ar ôl dyroddi adroddiad byr.

4.8 Gwnaed Rheoliadau 2010 o dan bwerau yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002, ar gyfer penderfyniadau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu, a Deddf Plant 1989, ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud ag adolygu penderfyniadau sy'n gysylltiedig â maethu. Mae'r darpariaethau maethu a amlinellwyd yn flaenorol yn Neddf Plant 1989 wedi'u datgymhwyso a'u hail-wneud ar gyfer Cymru drwy adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er bod Rheoliadau 2010 yn parhau i fod yn gymwys, bydd dirymu a disodli'r Rheoliadau hyn â Rheoliadau 2026 yn gwella eglurder cyfreithiol a hygyrchedd. O ganlyniad, bydd modd i'r darllenydd weld yr holl bwerau galluogi perthnasol mewn un lle.

4.9 Fel rhan o'r broses o ddirymu ac ail-wneud Rheoliadau 2010, rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i gywiro cyfeiriadau sydd wedi dyddio a gwella eglurder cyfreithiol, yn ogystal â gwneud nifer o newidiadau bach ond pwysig i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn fwy clir, yn fwy cyson, ac yn haws ei gymhwyso yn ymarferol.

4.10 Bydd y newidiadau hyn yn gwneud y canlynol:

- egluro sut y dylai paneli ymdrin â buddiannau unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau datgelu. Lles plentyn mabwysiedig yw'r ystyriaeth bwysicaf o hyd, fel cynt, ond bydd y rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i baneli ystyried effaith datgelu ar unrhyw berson arall a allai gael ei effeithio gan y datgeliad. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu sut y mae llysoedd eisoes yn ymdrin â materion tebyg mewn achosion gofal plant ac yn sicrhau proses deg a chytbwys.

- dileu darpariaeth yn Rheoliadau 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru weinyddu'r panel adolygu a threfnu cymorth clercio. Mae Gweinidogion Cymru eisoes yn gyfrifol am hyn o dan ddeddfwriaeth bresennol.

- dileu'r gofyniad i gofnodion gael eu cadw “o dan amodau diogelwch priodol.” Y rheswm am hyn yw bod deddfau diogelu data (fel Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU) eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gadw data personol yn ddiogel.

- cyflwyno terfyn amser o 40 diwrnod gwaith ar gyfer pob math o benderfyniadau cymhwysol (mabwysiadu, maethu neu ddatgelu), gan sicrhau cysondeb ac eglurder i bawb sy'n rhan o'r broses. Yn y

gorffennol, dim ond penderfyniadau yn ymwneud ag addasrwydd mabwysiadu oedd â therfyn amser pendant (40 diwrnod gwaith) ar gyfer gofyn am adolygiad.

4.11 Mae'r newidiadau hyn yn gwella tegwch, tryloywder ac effeithiolrwydd gweithredol yn y broses adolygu, gan sicrhau bod yr IRM yn parhau i gyflawni ei ddiben arfaethedig mewn cyd-destun deddfwriaethol modern.

4.12 Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y canlynol:

- Darpar ofalwyr maeth a mabwysiadwyr, a gofalwyr maeth a mabwysiadwyr cymeradwy, sydd wedi gwneud cais am adolygu penderfyniad.
- Asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaethau maethu.
- Aelodau'r panel a chynghorwyr a benodir gan Weinidogion Cymru.
- Unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau datgelu o dan gofnodion mabwysiadu.

4.13 Byddai methu â chyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd yn arwain at y canlynol:

- Ni fydd gan ymgeiswyr lwybr ystyrlon i herio adroddiad byr.
- Lleihau eglurder a hygyrchedd y gyfraith oherwydd byddai'r Rheoliadau diwygiedig yn parhau i ddyfynnu pwerau galluogi sydd wedi dyddio (byddai'r pwerau galluogi wedi'u diweddaru yn cael eu dyfynnu yn y Rheoliadau diwygio ond nid y Rheoliadau diwygiedig).
- Tanseilio tegwch a thryloywder yn y broses adolygu.
- Risg o niweidio enw da Llywodraeth Cymru a her gyfreithiol bosibl.

4.14 Mae'r ddeddfwriaeth yn sicrhau bod modd rhoi'r broses IRM ar waith yn fwy effeithlon trwy:

- Egluro rolau, gweithdrefnau ac amserlenni ar gyfer pawb sy'n rhan o'r broses.
- Lleihau baich gweinyddol trwy ddileu darpariaethau sydd wedi'u dyblygu.
- Cefnogi gwneud penderfyniadau cyson a lleihau oedi yn y broses adolygu.

4.15 Bydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad at gyfiawnder i unigolion a allai fod dan anfantais oherwydd penderfyniadau cychwynnol, yn enwedig mewn achosion lle mae asesiadau'n cael eu byrhau yn gynamserol. Hefyd, maent yn sicrhau proses decach i'r rhai sydd eisiau bod yn ofalwyr maeth neu'n fabwysiadwyr, ac i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau datgelu.

4.16 Mae Rheoliadau 2026 yn gymwys i Gymru yn unig. Maent yn cael eu gwneud o dan bwerau sydd wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru ac maent yn ymwneud yn benodol â gweithrediad gwasanaethau maethu a mabwysiadu yng Nghymru.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng 4 Awst 2025 a 27 Hydref 2025 ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2010. Hysbyswyd llawer o randdeiliaid allweddol am yr ymgynghoriad gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, darparwyr maethu annibynnol, darparwyr maethu'r trydydd sector, asiantaethau mabwysiadu, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru.

5.2 Cafwyd 14 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd cytundeb cyffredinol i'r holl gynigion yn yr ymgynghoriad. Barnwyd nad oedd angen i’r newidiadau arfaethedig gael eu diwygio.

5.3 Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael **yma**

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

6.1 Mae tri opsiwn wedi'u hystyried wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau o gyflwyno newidiadau i'r IRM yng Nghymru:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim - cadw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010
- Opsiwn 2: Cadw a diwygio Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010
- Opsiwn 3: Dirymu a disodli Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 â Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026

**Opsiwn 1: Gwneud Dim - cadw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010**

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 heb eu diwygio. Er ei fod yn osgoi ymdrech ddeddfwriaethol, nid yw'n mynd i'r afael â'r diffygion yn y fframwaith cyfreithiol presennol.

**Costau**

6.3 Mae'r IRM yn cael ei gyflwyno drwy gontract a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-2027 ar gost o £247,600. Mae'r costau hyn yn cwmpasu gweinyddu a chyflawni adolygiadau panel annibynnol, gan gynnwys ffioedd a threuliau aelodau paneli, rheoli achosion, seilwaith TG, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gwasanaethau cymorth.

6.4 Hefyd, mae'r costau hyn yn cefnogi gweithgareddau sicrhau ansawdd a darparu canllawiau cyhoeddus; y nod yw sicrhau proses adolygu deg a thryloyw o dan y trefniadau contractiol presennol.

6.5 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

**Manteision**

6.6 Mae dwy fantais allweddol i gadw'r dull gweithredu presennol: nid yw'n cynnwys gwariant ariannol uniongyrchol, gan osgoi unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno newidiadau, ac mae'n sicrhau parhad trwy gynnal prosesau presennol heb darfu arnynt.

## Risgiau

6.7 Mae parhau â'r dull gweithredu presennol yn creu sawl her sylweddol. Mae aneffeithlonrwydd gweithredol yn codi oherwydd nad yw'r panel IRM yn gallu argymell asesiad llawn yn dilyn adroddiad byr, sy'n golygu bod y broses adolygu yn aneffeithiol mewn achosion o'r fath. Mae risg gyfreithiol yn codi hefyd, gan fod dibynnu ar gyfeiriadau deddfwriaethol sydd wedi dyddio yn cynyddu'r tebygolrwydd o gamddehongli a her gyfreithiol bosibl. Yn ogystal, mae niwed i enw da yn peri pryder, gyda'r canfyddiad posibl bod Llywodraeth Cymru yn methu â moderneiddio a sicrhau tegwch. Mae baich gweinyddol sylweddol ar ymarferwyr, gan fod rhaid iddynt ddehongli deddfwriaeth a ddiddymwyd a dibynnu ar Ddeddf Dehongli 1978, sy'n ychwanegu cymhlethdod. Yn olaf, mae materion yn ymwneud â thegwch a thryloywder yn parhau oherwydd y posibilrwydd na fydd adolygiad ystyrlon ar gael i ymgeiswyr, gan danseilio tegwch gweithdrefnol.

## Casgliad

6.8 Ni argymhellir yr opsiwn hwn. Er ei fod yn cynnal y *status quo*, mae'n methu â mynd i'r afael â risgiau cyfreithiol, gweithredol ac enw da hanfodol. Mae'r defnydd parhaus o gyfeiriadau deddfwriaethol sydd wedi dyddio yn tanseilio effeithiolrwydd a thegwch y broses IRM, yn cynyddu'r risg o her gyfreithiol, ac yn rhoi beichiau diangen ar ymarferwyr. Mae moderneiddio'r fframwaith yn hanfodol er mwyn cadw tryloywder, sicrhau eglurder gweithdrefnol, a chynnal hyder y cyhoedd yn y system.

## Opsiwn 2: Cadw a diwygio Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

6.9 O dan yr opsiwn hwn, byddai Rheoliadau presennol 2010 yn cael eu cadw ond byddent yn destun mân ddiwygiadau er mwyn mynd i'r afael â mater yr adroddiad byr.

## Costau

6.10 Fel yr amlinellwyd yn Opsiwn 1, ariennir yr IRM drwy gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024–2027 ar gost o £247,600, sy'n cwmpasu'r holl elfennau gweithredol craidd. Bydd y diwygiadau penodol arfaethedig i'r rheoliadau IRM yn cael eu gwneud oddi mewn i gwmpas y contract hwn heb unrhyw gynnydd yn y gost. Bydd unrhyw hyfforddiant untro ar gyfer aelodau'r panel a gwaith i godi ymwybyddiaeth awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol hefyd yn cael eu darparu a'u hariannu drwy'r cytundeb presennol gyda Plant yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.

6.11 Er y bydd hyfforddiant a gwaith i godi ymwybyddiaeth yn cael eu hariannu drwy'r cytundeb presennol gyda Plant yng Nghymru, bydd cost cyfle yn ymwneud â dargyfeirio adnoddau ac amser oddi wrth flaenoriaethau eraill. Gallai capasiti staff a rhanddeiliaid a ddefnyddir ar gyfer y gweithgareddau hyn gael ei ddefnyddio fel arall i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau neu fentrau strategol. Er bod effaith ariannol wedi'i chyfyngu, y cyfaddawd yw llai o ffocws ar waith amgen.

**Manteision**

6.12 Mae sawl mantais yn deillio o gadw'r fframwaith presennol. Yn gyntaf, mae'n sicrhau parhad trwy gadw system sy'n gyfarwydd i randdeiliaid, ac mae'n osgoi tarfu ar brosesau sydd wedi'u sefydlu. Yn ail, mae'n gost-effeithiol, gan fod mân ddiwygiadau yn gofyn am lawer llai o adnoddau na diwygio deddfwriaethol llawn, gan leihau'r angen am waith drafftio cyfreithiol, hyfforddiant ac ymdrechion gweithredu helaeth trwy adeiladu ar systemau a phrosesau cyfarwydd. Yn olaf, mae diweddariadau wedi'u targedu yn gwella eglurder trwy fynd i'r afael â materion hysbys fel y gofyniad am adroddiad byr a gwella defnyddioldeb cyffredinol.

**Risgiau**

6.13 Er bod diwygiadau wedi'u targedu yn gallu arwain at rai gwelliannau, mae ganddynt gyfyngiadau nodedig. Byddai'r effaith yn gyfyngedig, gan nad yw mynd i'r afael â mater yr adroddiad byr yn unig yn datrys darpariaethau sydd wedi dyddio a gwendidau strwythurol eraill, gan gynnwys gofynion gweithdrefnol anhyblyg, cyfeiriadau deddfwriaethol sydd wedi dyddio, a chwmpas cul ar gyfer adolygu sy'n cyfyngu ar hyblygrwydd a chysondeb ag ymarfer presennol. Mae amwysedd cyfreithiol yn bryder arall, gan fod diwygio rheoliadau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth sydd wedi'i diddymu yn cyflwyno cymhlethdod ac angen posibl am waith dehongli manwl. Hefyd, gallai'r dull gweithredu hwn greu dryswch parhaus, gydag ymarferwyr ac ymgeiswyr yn parhau i wynebu heriau wrth geisio deall y fframwaith cyfreithiol, yn enwedig os oes angen dogfennau lluosog at ddibenion cyfeirio. Yn y pen draw, mae'r opsiwn hwn yn arwain at foderneiddio rhannol yn unig, gan y byddai problemau ehangach oddi mewn i'r fframwaith IRM, fel gweithdrefnau anhyblyg a chyfeiriadau cyfreithiol sydd wedi dyddio, yn parhau, gan gyfyngu ar y gallu i addasu a lleihau cysondeb â pholisi ac ymarfer presennol.

**Casgliad**

6.14 Ni argymhellir yr opsiwn hwn. Er ei fod yn cynnig ateb rhannol, nid yw'n moderneiddio nac yn egluro'r fframwaith rheoleiddiol yn llawn. Mae'n gwella ymarferoldeb ond nid yw'n dileu gwendidau pwysig.

**Opsiwn 3: Dirymu a disodli Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 â Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026**

6.15 O dan yr opsiwn hwn, byddai Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 yn cael eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 gan ymgorffori'r holl ddiweddariadau a gwelliannau angenrheidiol.

**Costau**

6.16 Fel yr amlinellwyd yn Opsiwn 1, ariennir yr IRM drwy gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024–2027 ar gost o £247,600, sy'n cwmpasu'r holl elfennau gweithredol craidd. Bydd y diwygiadau penodol arfaethedig i'r rheoliadau IRM yn cael eu rhoi ar waith o fewn cwmpas y contract hwn heb unrhyw gynnydd yn y gost. Bydd unrhyw hyfforddiant untro ar gyfer aelodau'r panel a gwaith i godi ymwybyddiaeth awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol hefyd yn cael eu darparu a'u hariannu drwy'r cytundeb presennol gyda Plant yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2026-27.

6.17 Bydd hyfforddi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dargyfeirio capasiti oddi wrth waith gweithredol a strategol parhaus. Er bod y newid yn arwain at fanteision hirdymor trwy reoliadau wedi’u moderneiddio, y cyfaddawd yw llai o ffocws ar weithgareddau amgen yn ystod y cyfnod pontio.

6.18 Trwy roi’r hawl i'r panel adolygu annibynnol ofyn am asesiad llawn, gallai darparwyr gwasanaethau maethu wynebu costau ychwanegol. Byddai'r costau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar strwythurau awdurdodau lleol, capasiti staffio, a phrosesau presennol, felly nid oes modd eu meintioli ar hyn o bryd. Disgwylir i'r effaith fod yn wahanol ar draws Cymru, gyda rhai darparwyr yn wynebu gofynion mwy o safbwynt adnoddau na darparwyr eraill.

6.19 Mae'r diwygiadau sy’n weddill yn y Rheoliadau yn ffurfioli ymarfer presennol i raddau helaeth, ac felly ni ddisgwylir iddynt arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol, na randdeiliaid eraill.

**Manteision:**

6.20 Byddai diwygio cynhwysfawr yn arwain at fanteision sylweddol. Byddai'n darparu eglurder cyfreithiol trwy gydgrynhoi pwerau galluogi o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddai modd cryfhau

effeithiolrwydd gweithredol trwy rymuso paneli IRM i argymell asesiadau llawn yn dilyn adroddiadau byr, gan adfer gwerth ymarferol y broses adolygu. Byddai modd sicrhau cysondeb trwy gyflwyno terfyn amser unffurf o 40 diwrnod gwaith ar gyfer pob penderfyniad cymhwysol, gan wella eglurder a thegwch. Byddai moderneiddio yn dileu darpariaethau sydd wedi dyddio sydd eisoes wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth arall, megis cymorth clercio a diogelwch data. Byddai modd gwella tegwch a thryloywder trwy sicrhau bod paneli yn ystyried effaith datgelu ar yr holl unigolion sy'n cael eu heffeithio, gan sicrhau cysondeb ag arferion barnwrol gorau. Yn olaf, byddai modd gwella hygyrchedd trwy alluogi rhanddeiliaid i ddeall y rheoliadau heb olrhain hanes deddfwriaethol, gan sicrhau bod y fframwaith yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy effeithlon.

### Risgiau

6.21 Ni ddisgwylir llawer o heriau o ran gweithredu, a dim ond mân risgiau sy'n gysylltiedig â phontio i'r fframwaith newydd. Gall y risgiau hyn gynnwys yr angen i randdeiliaid gyfarwyddo â'r fframwaith, a diweddariadau i ganllawiau mewnol. Fodd bynnag, credir bod modd rheoli a lliniaru risgiau o'r fath trwy brosesau cyfathrebu clir a gweithredu fesul cam.

### Casgliad

6.22 Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau gwelliannau cynhwysfawr o ran tegwch, eglurder ac ymarferoldeb. Gan fod y manteision yn rhagori'n sylweddol ar y costau, hwn yw'r dull gweithredu sy'n cael ei ffafrio a'i argymell.

### Argymhelliad Cyffredinol

6.23 Argymhellir **Opsiwn 3 –** dirymu ac ail-wneud Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig ateb cyfreithiol gadarn, teg a gweithredol effeithiol i'r gwendidau a nodwyd yn y fframwaith presennol. Mae'n cyd-fynd â safonau deddfwriaethol modern a disgwyliadau rhanddeiliaid, ac mae'n cefnogi canlyniadau gwell i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses.

## 7. Asesiad Cystadleuaeth

7.1 Mae prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau ar gyfer y Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau’n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 arfaethedig. Mae'r asesiad yn dangos nad oes disgwyl i'r rheoliadau gael effaith negyddol ar gystadleuaeth. Maent yn gymwys i'r holl ddarparwyr perthnasol yn yr un modd, a'u nod yw gwella tegwch, eglurder cyfreithiol ac effeithlonrwydd gweithredol yn y Mecanwaith Adolygu Annibynnol. Nid yw'r newidiadau yn cyflwyno rhwystrau i fynediad, yn newid dynameg y farchnad, nac yn rhoi unrhyw ddarparwr

penodol o dan anfantais. Mae'r sector yn parhau i gael ei arwain yn gyhoeddus ac yn parhau i fod yn gydweithredol, heb unrhyw dystiolaeth o grynodiad y farchnad neu darfu technolegol.

## 8. Adolygiad ôl-weithredu

8.1 Bydd adolygiad ôl-weithredu yn cael ei gynnal i asesu a yw'r rheoliadau sydd wedi'u hail-wneud yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys monitro nifer y ceisiadau, penderfyniadau paneli, a chydymffurfiaeth ag amserlenni, ochr yn ochr ag adborth gan randdeiliaid a dadansoddiad cyfreithiol. Bydd adolygiad cychwynnol yn cael ei gynnal o fewn 24 mis, yna gwaith monitro blynyddol parhaus ac adolygiad llawn o fewn 3–5 mlynedd. Bydd canfyddiadau yn llywio unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i sicrhau bod y rheoliadau yn parhau i fod yn effeithiol, yn deg ac yn gyson ag amcanion polisi.